**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 23 Hydref 2023 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M Baker | Y V Jardine | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | L V Walton |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Gosney | Arweinydd Tîm Comisiynu |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Cathy Murray | Prif Swyddog Darpariaeth Gwasanaethau |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| A Anthony | Aelod y Cabinet dros Les |
| L Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| H Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gefnogi Cymunedau |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Pritchard

---

## 19 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 20 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 11 Medi 2023 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**21 Model Cyflwyno Darpariaeth Gofal Preswyl Mewnol.**

Amlinellodd Amy Hawkins, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi, gyda chefnogaeth gan Cathy Murray, Prif Swyddog Darpariaeth Gwasanaethau, y broses o roi'r argymhellion gan Adolygiad Cartrefi Gofal Preswyl Pobl Hŷn 2018 ar waith. Effaith COVID-19, ymateb ac adfer, sefyllfa bresennol, datblygiadau a chynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ar gyfer Darpariaeth Gofal Preswyl i bobl hŷn.

Roedd y sylwadau'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Roedd y sylwadau a wnaed gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn Atodiad C a'r wybodaeth astudiaeth achos yn Atodiad Ch yn galonogol gan ystyried yr holl anawsterau y daethpwyd ar eu traws dros y tair blynedd diwethaf.
- Gofynnwyd a oeddem yn gallu recriwtio'r staff gofal cywir yr oedd eu hangen. Cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn gwneud popeth o fewn ei allu i gynnal a chadw a gwella a chynyddu'r gweithlu gofal cymdeithasol, ond cadarnhawyd ei fod yn heriol a bod nifer sylweddol o swyddi gwag, nid yn unig yn Abertawe ond ar draws Cymru;
- Cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn darparu gofal preswyl tymor hir cymhleth yn hytrach na lleoliadau nyrsio, dan y ddealltwriaeth os bydd anghenion pobl yn gwaethygu neu os bydd eu hanghenion yn mynd yn fwy cymhleth ac y mae angen gofal nyrsio arnynt, bydd yn eu cefnogi i ddod o hyd i leoliad nyrsio priodol hefyd.
- Caiff ailalluogi tymor byr a lleoliadau asesu eu cefnogi hyd at 42 o ddiwrnodau.

Cadarnhaodd Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion a Threchu Tlodi bod y data yn y broses o gael ei ddadansoddi ar y cyd â'r tîm perfformiad i ddysgu o'r profiad a'r wybodaeth a gasglwyd.

**Penderfynwyd** nodi barn y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Threchu Tlodi ar fodel cyflwyno Gofal Preswyl Mewnol ar gyfer Pobl Hŷn.

**22 Grant Galluogi Cymunedau. (For Information)**

Cyflwynodd Mark Gosney ac Anthony Richards adroddiad "Er Gwybodaeth" er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor ar y gweithdy diweddar ynghylch datblygu proses grant newydd.

Roedd y cynnig yn ceisio cyfuno a lansio un grant o dan faner "galluogi cymunedau" a fyddai'n galluogi sefydliadau i wneud cais am grantiau drwy un cynllun, ond byddai'n caniatáu iddynt nodi'r elfennau o'r cynllun roeddent am wneud cais ar eu cyfer. Dyma oedd y tri chynllun: Lleoedd Llesol Abertawe, COAST a Bwyd y Gwyliau

Cadarnhaodd y swyddogion cymeradwywyd y cyllid ers y gweithdy ac roeddent yn y broses o gynllunio lansio'r grant, a'i gyhoeddi ar 1 Tachwedd 2023.

Diolchodd y swyddogion i'r Pwyllgor am eu cyfraniad i'r broses yn ystod adroddiadau blaenorol a'r gweithdy.

**23 Cyllun Gwaith 2023-2024.**

Cyflwynodd y Cadeirydd y Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2023-2024.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.32 pm

**Cadeirydd**